Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	23 Tachwedd 2022
Aelod Arweiniol / Swyddog	Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol. Barry Eaton Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio Dros Dro
Awdur yr Adroddiad	Barry Eaton, Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO)
Teitl	**Adroddiad SIRO 2021-22**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng **mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022** ac mae'n darparu gwybodaeth am brosesau llywodraethu gwybodaeth y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am achosion o gael mynediad di-awdurdod at ddata dan y Ddeddf Diogelu Data, sydd wedi bod yn destun ymchwiliad gan Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth CSDd. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys data am geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Gwybodaeth Amgylcheddol a Diogelu Data a ddaeth i law'r Cyngor, gan gynnwys rhai sydd wedi'u cyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ysgolion Sir Ddinbych.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Mae Polisi Diogelu Data'r Cyngor yn gofyn am adroddiad blynyddol ar gynnydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i ganiatáu i'r Aelodau oruchwylio'r broses.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi gan y Pwyllgor.

4. Manylion yr adroddiad

Ochr yn ochr â'r Swyddog Diogelu Data, mae ar yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) gyfrifoldeb penodol i sicrhau bod yr wybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn cael ei rheoli'n ddiogel, yn effeithiol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae'r systemau a ddyluniwyd i sicrhau bod y rolau hyn yn cael eu gwneud yn llwyddiannus yn dibynnu ar dryloywder ac ar fod yn agored, felly mae'n arbennig o bwysig bod Aelodau'n cael trosolwg o'r broses.

Mae'r adroddiad eleni yn cynnwys mwy o wybodaeth nag yn y blynyddoedd blaenorol oherwydd buddsoddiad cynyddol y Cyngor mewn rheolaeth data diogel, yn cynnwys:

- Mwy o ymgysylltiad â'r ysgolion
- Mwy o amser dynodedig wedi'i neilltuo ar gyfer swyddogion yn y Gwasanaethau Cyfreithiol
- Cydweithio effeithiol ar draws y cyngor drwy gyfrwng y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth sy'n cael ei gadeirio gan Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y Cyngor
- Codi ymwybyddiaeth ar draws yr holl wasanaethau drwy hyfforddiant a chymorth dynodedig.

Ond er gwaetha'r gwelliannau hyn, bu achosion o gael mynediad di-awdurdod at ddata o hyd, a chânt eu disgrifio isod ynghyd â gwybodaeth am rôl y Cyngor wrth reoli Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Ceisiadau am Wybodaeth Amgylcheddol a cheisiadau Diogelu Data (Ceisiadau gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain).

4.1Torri Rheolau Diogelu Data

Rhwng mis Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 bu 36 o ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol, mwy na'r llynedd pan fu 22.

Tabl 1: Toriadau diogelu data yr hysbyswyd yn eu cylch yn ystod 2021/22

Rheswm dros dorri'r rheolau	**Nifer**
Unigolyn anghywir wedi cael e-bost	15
Unigolyn anghywir wedi cael llythyr	12
Templed wedi'i lenwi o flaen llaw wedi'i anfon fel atodiad i neges e-bost neu lythyr, yn hytrach na chopi gwag	4
Cyfeiriadau e-bost grŵp yn weladwy yn y blwch CC yn hytrach na'r blwch BCC	1
Galwad wedi'i throsglwyddo'n allanol, yn hytrach nag yn fewnol	1
Unigolyn anghywir wedi cael neges ar ffôn symudol gwaith	1
Gwybodaeth wedi'i golygu'n anghywir	2

Er na ystyriwyd bod yr un o'r digwyddiadau hyn yn rhai y dylid rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn eu cylch, mae hwn yn gynnydd sylweddol o hyd. Er mai camgymeriadau dynol yn eu hanfod yw'r rheswm sylfaenol dros y toriadau hyn, fel SIRO mae gennyf rai pryderon fod y digwyddiadau hyn wedi dod yn fwy cyffredin oherwydd bod staff swyddfeydd wedi bod yn gweithio i ffwrdd o'u swyddfeydd yn ystod y flwyddyn ac nad oedd ganddynt felly fynediad at yr un prosesau

gwirio ag sydd ganddynt yn eu lleoliadau gwaith arferol. Er mwyn datrys hyn mae gweithdrefnau newydd ar gyfer 'gwirio o bell' yn cael eu harchwilio yn cynnwys:

- Gweld a yw'n bosibl i Microsoft Outlook stopio cynnig cyfeiriadau e-bost allanol yn awtomatig yn y blwch 'derbynnydd' - ar y gweill, TG
- Gweld a fyddai'n bosibl i neges ymddangos yn Microsoft Outlook i gadarnhau a yw'r anfonwr eisiau anfon yr e-bost ai peidio (fel sy'n digwydd pan nad oes unrhyw beth yn y blwch testun, pan nad oes atodiad ac ati.) pan fydd yn mynd at dderbynnydd allanol - ar y gweill, TG
- Pan fo adroddiadau'n cael eu hargraffu gan Staff Cymorth Busnes ar ran aelod arall o staff sydd ddim yn y swyddfa, bod yr adroddiad yn cael ei argraffu a'i sganio'n ôl at yr aelod perthnasol o staff i'w wirio cyn i'r adroddiad gael ei bostio - ar y gweill, Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae hyfforddiant gloywi ar ddiogelu data wedi ei lansio ar gyfer pob aelod o staff, sy'n cynnwys cyngor ar reoli data'n effeithiol wrth weithio i ffwrdd o'r swyddfa.

4.2Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (RhG) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA)

Cafwyd cyfanswm o 1009 o geisiadau RhG a RhGA yn ystod y 12 mis at 31 Mawrth 2022.

Tabl 2: Nifer y ceisiadau a gwblhawyd o 2014/15 hyd 2021/22

Blwyddyn	Cyfanswm ceisiadau a dderbyniwyd	Nifer a gwblhawyd o fewn y terfyn amser	Canran o fewn y terfyn amser
14/15	1138	1038	91%
15/16	1236	1153	93%
16/17	1331	1281	96%
17/18	1367	1303	95%
18/19	1500	1425	95%
19/20	1261	1221	96%
20/21	1196	1010	84%
21/22	1009	880	87%

Gostyngodd nifer y ceisiadau RhG a RhGA yn sylweddol yn ystod 21/22, 12% yn is na 20/21, a'r pandemig oedd y prif reswm (adleoli staff ac absenoldeb staff). Eleni, mae nifer y ceisiadau wedi

cynyddu i bron 100 y mis, sy'n debyg i lefel y ceisiadau yn 2019. Mae rhai a fyddai'n gwneud ceisiadau a oedd wedi diflannu yn ystod y pandemig wedi dychwelyd, yn benodol pleidiau gwleidyddol a busnesau.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ymateb i o leiaf 90% o geisiadau RhG a RhGA o fewn y terfyn amser. Nid ydym wedi cyrraedd y targed hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd effaith y pandemig; mae cyfraddau ymateb o 84% ac 87% yn foddhaol o ystyried yr amgylchiadau.

4.3 Ceisiadau Diogelu Data (Ceisiadau am ddata personol)

Cyfanswm a dderbyniwyd:	203
Ceisiadau gan Unigolion i weld gwybodaeth amdanynt eu hunain:	87
Ceisiadau am eithriad:	116
O fewn y terfyn amser a ddynodwyd:	183 (90%)

Cafeat:

• Mae ffigurau'r Gwasanaethau Plant wedi'u cynnwys yn yr ystadegau uchod nawr - nid oeddent wedi'u cynnwys mewn blynyddoedd blaenorol. Mae ystadegau uwch yn amlwg ar gyfer Gwasanaethau Plant oherwydd bod achosion Diogelu Data yn fwy tebygol o gael eu cofnodi'n ganolog ers ailstrwythuro prosesau Plant tua mis Hydref 2021.

• Yn dechnegol, nid oes gan geisiadau'r Heddlu ddyddiad "terfyn" statudol fel Ceisiadau gan Unigolion i weld gwybodaeth amdanynt eu hunain (mwy fel disgwyliad "cyn gynted ag sy'n bosibl"). Maen nhw wedi'u cofnodi yma fel "Tu Hwnt i'r Terfyn Amser" os byddant yn mynd dros fis calendr.

• Mae'r cyfanswm ystadegau ymateb ychydig dros 90% ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn anodd, ers dechrau cyfnod Covid, i gael data gan wasanaethau i ganiatáu digon o amser i asesu, golygu a gofyn am ddatgeliad o fewn y terfynau amser.

4.4 Adolygiadau Mewnol

Mewn rhai achosion, cafodd penderfyniadau am fynediad at wybodaeth eu herio gan yr ymholwr a chynhaliwyd adolygiad mewnol.

Ar gyfer ceisiadau RhG a RhGA, roedd 15 her o'r fath dros y 12 mis diwethaf gyda 10 ohonynt wedi'u cynnal yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Bu gostyngiad o 37% o ran adolygiadau mewnol, o uchafbwynt o 24 y llynedd. Mae hyn yn rhannol oherwydd y gostyngiad o ran nifer y ceisiadau, ond mae fel pe bai llai o awydd wedi bod am heriau i ymatebion. Bu cynnydd o ran nifer y cwynion a gafodd eu cynnal yn rhannol – yn bennaf oherwydd bod mwy o wybodaeth wedi dod i'r amlwg ar ôl i'r ymateb gwreiddiol gael ei anfon. Mae camau wedi'u cymryd i gyfyngu ar ba mor aml mae hyn yn digwydd.

Nid oes adolygiad mewnol statudol dan Geisiadau gan Unigolion i weld gwybodaeth amdanynt eu hunain, fodd bynnag, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn argymell proses adolygu. Cynhaliwyd un adolygiad o'r fath a chafodd y cais ei wrthod oherwydd ei fod yn ormodol a di-sail.

Lle nad yw'n bosibl datrys materion yn uniongyrchol gyda'r ymholwr, neu os ydynt yn achosion cymhleth neu sensitif, gallant gael eu hystyried gan y Panel Mynediad at Wybodaeth sy'n cael ei gadeirio gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd. Llwyddodd y Panel i ddatrys un mater o'r fath dros e-bost yn ystod y flwyddyn, a'r penderfyniad oedd dileu set data ardrethi busnes o'r wefan er mwyn lleihau'r risg o dwyll.

4.5 Cŵyn i Gomisiynydd y Gymraeg

Cyflwynwyd un gŵyn i Gomisiynydd y Gymraeg am oedi wrth ddelio â chais RhGA trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi ymateb i ddweud bod y cais wedi'i oedi'n bennaf oherwydd bod staff ar eu gwyliau, a hefyd oherwydd deddfwriaeth RhGA, a nifer y cofnodion i'w datgelu. Felly, nid oedd y cais wedi'i oedi gan ei fod wedi'i gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg.

4.6. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Ymchwiliodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i un gŵyn am gais RhGA a gyflwynwyd i'r Cyngor yn 2020, a chyhoeddwyd eu penderfyniad ar eu gwefan ym mis Rhagfyr 2021. Cafodd yr eithriadau a gafodd eu gweithredu gan y Cyngor eu cynnal, fodd bynnag, cawsom ein beirniadu am beidio ag ymateb i'r sawl a gyflwynodd y cais o fewn y terfyn amser statudol. Arweiniodd ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth at tua 100 awr o waith (yn ychwanegol at y nifer o oriau a dreuliwyd ar y cais gwreiddiol a'r adolygiad mewnol). IC-70644-T2D5

https://icosearch.ico.org.uk/s/search.html?collection=ico-meta&profile=decisions&query=denbighshire

Ymchwiliodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gais gan unigolyn i weld gwybodaeth amdanynt eu hunain hefyd a gwelwyd y bu oedi amhriodol o ran datgeliad. Derbyniwyd y gŵyn a chafodd ei datrys ar adeg delio â'r cais. Gweithredwyd hyfforddiant ychwanegol gyda'r tîm Refeniw a Budd-daliadau cyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gysylltu â CSDd. Darparwyd eglurhad llawn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Mae tri achos diogelu data arall o 2021 a allai arwain at gyfranogiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – roedd y tri yn geisiadau mawr a chymhleth gan unigolion i weld gwybodaeth amdanynt eu hunain.

4.7 Ysgolion

Erbyn hyn mae gan y Cyngor Ddirprwy Swyddog Diogelu Data sy'n gweithio'n unswydd gyda'r ysgolion ac o ganlyniad i hyn mae gennym wybodaeth well o lawer am y sector hwn. Mae pob ysgol unigol yn gyfrifol am y modd y rheolir eu data a nhw yw eu rheolyddion data eu hunain, ond yn amlwg mae o fudd i'r Cyngor eu helpu nhw i gyflawni'r safonau uchaf o ran diogelu data. Rydym yn gwneud hyn mewn llawer iawn o ffyrdd, yn cynnwys cynnig cyngor a mynediad at ein polisïau a'n gweithdrefnau.

4.8 Toriadau Diogelu Data mewn ysgolion

Cafwyd cyfanswm o 6 mân achos o dorri rheolau diogelu data ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 – ni roddwyd gwybod am yr un o'r rhain i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Yn debyg i'r llynedd, roedd y rhain o ganlyniad i anfon gwybodaeth am ddisgybl drwy'r post neu e-bost at y rhiant anghywir, neu e-byst yn datgelu cyfeiriadau personol rhieni i bob derbynnydd (ddim wedi defnyddio bcc). Roedd 1 achos o golli data oherwydd mater TG ac nid oedd modd adfer y data hwnnw.

4.9 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data i Ysgolion

Daeth cyfanswm o 5 cais Rhyddid Gwybodaeth i law gan amryw ysgolion.

Gwnaed 1 cais Rhyddid Gwybodaeth i bob ysgol, gwnaed 3 chais arall i bob ysgol uwchradd ac 1 cais arall i 1 ysgol.

Gwnaed cyfanswm o 15 Cais gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain (ceisiadau am wybodaeth bersonol) i ysgolion

5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r adroddiad hwn yn cefnogi amcan y Cyngor i fod yn effeithiol ac yn effeithlon ond nid yw'n uniongyrchol gysylltiedig â blaenoriaeth gorfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1 Yng *Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les.*

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Amherthnasol

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Ddim yn angenrheidiol .

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1Er mai er gwybodaeth yn unig y mae’r adroddiad hwn, byddai risg i’r Cyngor pe na bai systemau rheoli gwybodaeth a diogelu data yn cael eu cynnal. Mae trosolwg gan Bwyllgor yn elfen bwysig o sicrhau bod ein systemau yn effeithiol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Nid oes angen penderfyniad